Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA - L/HID/0595/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

17 Hydref 2018

Annwyl Lynne a Mick,

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Wrth ymateb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn dilyn craffu cyfnod 1 ar Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru), dywedais y byddwn yn ysgrifennu eto i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgorau am ddau argymhelliad.

Yr argymhellion hyn yw argymhelliad naw yn yr adroddiad gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac argymhelliad pedwar yn yr adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sy'n nodi y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu'r cynnig gofal plant.

Hefyd, ymrwymais i archwilio rhai dewisiadau yn ymwneud ag argymhelliad tri'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sy'n dadlau o blaid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu a diddymu'r ddeddfwriaeth.

Rwyf wedi cael cyfle i ystyried yr argymhellion hyn a'r dadleuon a gyflwynwyd yn eich adroddiadau yn fanylach, ac rwyf wedi archwilio'r dewisiadau sydd ar gael i mi. Byddaf yn cyflwyno gwelliant y llywodraeth yng nghyfnod 3, a fydd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer darparu gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio.

Bydd y gwelliant yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer darpariaeth gofal plant ac yn golygu bod modd pennu oedran plant cymwys a'r lefel benodedig o ofal plant mewn rheoliadau. Credaf fod hyn yn sicrhau cydbwysedd rhesymol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhwng yr hyn y mae'r ddau bwyllgor yn ceisio ei gyflawni yn eu hargymhellion, ac yn parchu egwyddorion deddfu da.

Hefyd, rwyf wedi ystyried cynnwys darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu a diddymu'r ddeddfwriaeth, os yw'n cael ei phasio ac yn dod i rym. Er bod rhesymau cyfreithiol penodol dros gynnwys cymal machlud yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) 2018, ni fyddai darpariaeth debyg yn berthnasol i'r Bil technegol hwn.

Rwyf wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth yn rheolaidd ac fel mater o drefn. Mae'n bwysig bod pwerau'r Bil i wneud rheoliadau yn ddigon hyblyg i wneud unrhyw addasiadau gofynnol i'r ddeddfwriaeth os yw'r dystiolaeth a'r adborth yn awgrymu bod angen i ni wneud newidiadau i wella effeithiolrwydd y cynllun.

Fodd bynnag, rwyf yn derbyn dadl y pwyllgor bod angen adolygu'r ddeddfwriaeth a'r cynnig ar adeg benodol. Felly, byddaf yn cyflwyno gwelliannau yn ystod Cyfnod 3 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad a chyhoeddi'r canfyddiadau cyn gynted ag y bo modd bum mlynedd ar ôl cyflwyno'r pwerau yn adran 1 o'r Bil. Dylai'r canfyddiadau fod yn sylfaen ardderchog i fyfyrio ar y cynnig a'i effaith.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgorau am y cynnydd sydd wedi'i wneud ynglŷn â rhai o'r ymrwymiadau eraill yn fy llythyrau dyddiedig 17 Medi.

Rwy'n falch ein bod wedi trefnu i'r gwerthuswr annibynnol ddarparu papur briffio cyfrinachol yn ymwneud â chyflwyno'r cynllun yn y flwyddyn gyntaf ar gyfer aelodau'r pwyllgor ar 24 Hydref. Mae'r sesiwn hon wedi'i threfnu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ond mae croeso i aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei mynychu hefyd.

Rwy'n gobeithio y bydd cynllun gweinyddol fframwaith drafft cychwynnol ar gael i'w ystyried gan aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg erbyn 2 Tachwedd. Hefyd, yn y gwanwyn rwy'n bwriadu cyflwyno asesiad effaith integredig yn ymwneud â'r cynnig gofal plant ehangach, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar hawliau plant.

O safbwynt y rhaglen grant cyfalaf sydd wedi'i chyhoeddi gennym, rydym wedi derbyn y cynigion ac wrthi'n eu trafod yn fanylach â'r awdurdodau lleol. Byddwn ni'n gwneud cyhoeddiadau yn y Flwyddyn Newydd, ac fel y nodais yn fy ymateb i un o argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, byddaf yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd i'r pwyllgor i drafod y rhaglen ymhellach. Hefyd, rwy'n hapus iawn i hwyluso ymweliadau gan aelodau pwyllgor â rhai o'r lleoliadau a ariennir gan raglenni Llywodraeth Cymru.

Yn y cyfamser, edrychaf ymlaen at sesiwn pwyllgor Cyfnod 2 y Bil ar 18 Hydref pan fydd cyfle i ni barhau i drafod rhai o'r materion hyn yn fanylach.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies AC
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care